

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Gorffennaf 3ydd, 2014 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor Wyn Davies, (Is gadeirydd); Margaret Griffith; Aled Lloyd Evans; Trefor Wyn Jones; Gwilym M Thomas; Dafydd Williams; Marian Evans; Anwen Jones; Brian W Ifans; William Ifor Hughes; Naomi Jones a'r Clerc.

1 Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Alwen Evans; Elis Gwyn Jones a Thomas Prys Jones.

1a. Diwrnod galw heibio i drafod y Cynlluniau Tai yn Chwilog. Derbyniwyd adroddiad o'r cyfarfod gynhaliwyd yn y neuadd ar Fehefin 12fed gan y Cyngorydd Sirol, Aled Lloyd Evans a'r Cyngorydd Margaret Griffith. Roedd ymateb da gydag o leiaf 30 wedi mynychu, y farn gyffredinol oedd bod angen rhywfaint o ddatblygiad graddol ond bod pawb yn wrthwynebus i'r safleoedd tai dan ystyriaeth. Cwestiwn y mwyafrif oedd "Pwy ddaw i fyw i'r holl dai?"

b. Ymweliad a chyflwyniad gan Mr Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig. Croesawyd Mr Hughes i'r cyfarfod ac yn ei gyflwyniad soniodd am gynlluniau tai ym Motwmnog, Llanbedrog a Morfa Nefyn, yr ymdrech i ddiwallu'r angen lleol am dai rhent neu dai y gellir eu prynu. Eglurodd bod ei swydd yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a'r cymdeithasau tai ac mai rhan o'i waith yw canfod maint anghenion tai yn lleol. Dywedodd mai yn arferol tua traean fydd yn anfon holiadur yn ôl a bod ganddo holiadur y gellid ei addasu ar gyfer y gymuned. Mae hyn y groes i'r hyn ddywedwyd gan y Cyngor Sir sef bod disgwyl i gymunedau greu eu holiaduron eu hunain! Deallir bod 95 wedi gwneud cais am dai i'w rhentu, hynny yw rhestr aros o 95, a 4 eisiau prynu neu ran brynu tŷ yng nghymuned Llanystumdwy.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cael holiadur, y byddai Mr Arfon Hughes yn anfon copi o'r holiadur sydd ganddo ef, i'r Clerc ei anfon ymlaen i'r Cyngorwyr, iddo dderbyn ymatebion ac yna cysylltu gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd i roi sêl bendith ar holiadur addas ar gyfer cymuned Llanystumdwy. Roedd cais i'r holiadur gael ei anfon i bob tŷ yn y gymuned ac nid i gartrefi Ward Llanarmon yn unig.

Roedd cais i'r Clerc gysylltu gyda Chynghorau Tref Pwllheli a Phorthmadog i holi ydyn nhw'n ymwybodol o angen lleol am dai?

Diolchwyd i Mr Hughes am ei gyflwyniad.

3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mehefin 5ed, 2014.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol. Y Cyngorydd Gwilym M Thomas; rhif 7, cais cynllunio rhif 1, 7 Cae Capel, Chwilog, ffrind i'r sawl sy'n gwneud y cais.

6. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned. Penderfynwyd derbyn bod Swyddog Gorfodaeth yr Ardal yn ymdrin â'r goeden beryglus ger Fferm Bron Eifion, Llanystumdwy a'u bod yn ymwybodol o gyflwr y ffordd drwy Stâd Maes Eifion, Rhoslan ond na ellir rhoi addewid y caiff ei hailwynebu am beth amser.

2. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Bin Baw Ci yn Llanystumdwy. Derbyniwyd y llythyr y bydd y bin baw ci yn cael ei symud a'r sicrhad y bydd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd.

3. Pennaeth Adran Rheoleiddio; Ymateb i lythyrau at y Gwasanaeth Cynllunio.

Penderfynwyd derbyn yr ymddiheuriad am yr oedi yn ymateb i lythyrau.

4. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn; Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Trafodwyd y llythyr yng nghyd destun ymweliad Mr Arfon Huws a phenderfynwyd anfon copi o adroddiad o'r cyfarfod yn Neuadd Chwilog ar Fehefin 12fed a gofyn i'r Cyngor Sir sut maent am wneud arolwg sirol?

5. Aelod Cabinet Cynllunio; CDLI ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011 – 2026). Derbyniwyd y llythyr ynghylch dyddiad cau newydd derbyn gwybodaeth ynghylch y farchnad dai mewn gwahanol ardaloedd gyda'r sylw nad oedd yn ymarferol.

6. Rheolwr Tim Gwelliannau, Traffig Rheolaeth Datblygu (dros dro); Llanystumdwy a Llannor(!). Penderfynwyd tynnu sylw'r Swyddog mai yn Llanarmon y gofynnwyd am arwyddion, nid Llannor. Gofynnwyd i'r Cyngor Sir ail ystyried gosod arwydd i rwystro lorïau mawr iawn rhag troi am bentref Llanystumdwy wrth chwilio am y Parc Bwyd/Amaeth, ac yna'n mynd i gaeth gyfle ar bont y pentref. Gofynnwyd am i gopi o'r llythyr gael ei anfon at Harlech Foodservice. Penderfynwyd diolch am yr arwydd sydd yn rhybuddio lorïau mawr iawn rhag troi am Rydycroesau.

7. Rhaglen waith Trafidiaeth a Phriffyrdd, mis Gorffennaf 2014. Deallir bod y gwaith newid camfeydd am giatiaau mochyn ar Lwybr 54, Bontfechan wedi'i ddal yn ôl ar hyn o bryd.

7. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned: Cefnogwyd y tri cais canlynol

1. Cais rhif C14/0481/41/LL – Codi estyniad deulawr ochr; 7 Cae Capel, Chwilog.

2. Cais rhif C14/0515/41/LL – Gosod portacabin ar safle ar gyfer defnydd swyddfa annatodol i'r gweithdy cyfagos; Bro Mebyd, Chwilog.

3. Cais rhif C14/0563/41/LL – Agor mynediad i'r briffordd a chreu lle parcio; 7 Glan y Wern, Chwilog.

8. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026. Penderfynwyd ateb y llythyr yn dweud yn union beth mae'r Cyngor yma yn ei wneud ynghylch y CDLI.

9. Llyisiau'r Dial/Canclwm Siapaneaidd ar lwybr Afonwen ac ar dir y Cyngor wrth y bont yn Llanystumdwy. Daeth e bost oddi wrth Atkin Groundworks Ltd. yn tynnu sylw bod y chwyn yn tyfu'n gryf yng ngheg llwybr Afonwen a bod angen cysylltu gyda Chyngor Gwynedd. Gwnaed a threfnwyd cyfarfod gyda'r Clerc a Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor Sir yn trefnu gyda Dŵr Cymru ynghylch Afonwen. Bydd angen i'r Cyngor yma drefnu ynghylch y safle wrth y bont yn Llanystumdwy. Penderfynwyd derbyn ynghylch llwybr Afonwen a gofynnwyd i'r Clerc ofyn am bris cael gwared o'r canclwm wrth bont Llanystumdwy i gwmni Natur Llŷn. Bydd angen copi o'u tystysgrif yswiriant a'u hawl i chwistrellu os byddant angen.

10. **Materion yn y gymuned.**

Rhoslan a'r Ynys

1. Difrod i stanciau a gwair wedi cau gwter/gwli rhwng Fron Olau a Thy'n Weirglodd ar ôl gwaith barbio diweddar..
2. Angen barbio rhwng Llwyn yr Eryr a Rhos Ddu.
3. Dwy gwter wedi cau rhwng Rhos Ddu a Betws Bach.
4. Angen tocio coed drwy'r gymuned.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gydag adrannau perthnasol Cyngor Gwynedd.

Llanystumdwy

1. Loriau mawr iawn yn methu mynd dros bont y pentref ac yn gorfod bagio'r holl ffordd i groeslon Tyddyn Sianel cyn parhau ar eu taith i'r Parc Bwyd/Amaeth. Gweler y cofnod am rif 6.6 uchod.

Chwilog

1. Torri gwellt a. ym mynedfa stâd Cae Capel. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda pherchennog y tir i ofyn iddo wneud y gwaith.

b. y llwybr o bont Pandy i Blas Ewig. Gofynnwyd i'r Clerc anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt wneud y gwaith.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i'r Cyngor Sir wneud y gwaith canlynol:

2. Torri coed o Ocean Heights i fynedfa Golchfa Afonwen.
3. Groeslon Penybryn. Mae cais am newid y flaenoriaeth i drafnidiaeth sy'n dod o gyfeiriad Penybryn yn hytrach nag o gyfeiriad Rhydycroesau fel ag y mae 'rwan oherwydd problemau gwelediad a llawer mwy o drafnidiaeth yn dod heibio ceg lôn Penybryn.

4. Torri gwellt ar gylchfan Afonwen.

5. Barbio a thacluso safle Scottish Power, Lôn y Plas. Penderfynwyd gofyn i Scottish Power wneud y gwaith angenrheidiol.

11. Ymgynghori Statudol ar ddyfodol ysgolion Addysg Anghenion Arbennig ym Meirionnydd a Dwyfor. Derbyniwyd er gwybodaeth.

12. UHY Hacker Young, Cyfrifyddion Siartredig; Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol. Mae'r cwmni wedi gorffen eu gwaith archwilio ar y Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mawrth 31ain, 2014. Doedd dim materion yn codi y credent y dylai'r Cyngor eu hystyried cyn cymeradwyo ei Ddatganiad Blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010. Maent yn awr yn bwriadu cyhoeddi tystysgrif archwilio ddiamod ac adroddiad heb unrhyw faterion eraill yr hoffent dynnu sylw atynt a bod rhaid i'r Cyngor gymeradwyo a chyhoeddi'r cyfrifon a archwiliwyd erbyn Medi 30ain, 2014. Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon i gwmni UHY Hacker Young gael cwblhau'r archwiliad a chyhoeddi Hysbysiad am Gwblhad yr Archwiliad. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith.

13. Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman 2013/14. Derbyniwyd.

14. Materion heb gael ymateb iddynt. Dim y mis yma.

15. Rhoddwyd caniatad i'r Clerc dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd.

16. Caniatad i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd. Rhoddwyd caniatad.

17. Derbyn a mabwysiadu'r polisiau a rheolau canlynol ar ôl iddynt gael eu golygu gan y cyfieithydd: Datganiad Polisi; Polisi Amgylcheddol; Polisi Cyfle Cyfartal; Polisi Iaith a Rheolau Sefydlog. Derbyniwyd a mabwysiadwyd un ag oll.

18. Gohebiaeth o Nant Gwrtheyrn. Derbyniwyd er gwybodaeth gan ofyn i'r Clerc roi'r wybodaeth yn ei adroddiad ar gyfer Y Ffynnon, mis Medi.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

.

.